# Caerdydd Heb Drais

## Strategaeth Atal Trais

## 2025 -2028





Cardiff Caerdydd

# Dychmygu Caerdydd Heb Drais.







# Cynnwys


1 Rhagair ........ t.3

2 Diben ........ t.5

3 Deall Trais yng Nghaerdydd ........ t.9

- 3.1 – Proffil ar Sail Tystiolaeth o Drais Difrifol yng Nghaerdydd t.9
- 3.2 – Pa fathau o drais sydd yno? t.10
- 3.3 – Ble mae trais yn fwyaf cyffredin? t.11
- 3.4 – Pwy sy'n ymwneud â thrais neu pwy sy'n cael eu heffeithio gan drais? t.13
- 3.5 – Pryd mae trais yn fwyaf cyffredin? t.14
- 3.6 – Beth yw canfyddiad pobl o drais? t.15

4 Cefnogi Strategaeth a Pholisi Partneriaeth ........ t.12

5 Ein Dull Gweithredu ........ t.17

- 5.1 – Adolygiad o Lenyddiaeth t.17
- 5.2 – Ein Hegwyddorion Arweiniol t.20
- 5.3 – Ein Model t.22

6 Ein Blaenoriaethau ........ t.23

- 6.1 – Trais sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc t.24
- 6.2 – Troseddau cyllyll a meddu ar arfau ymosodol t.26
- 6.3 – Troseddau cyfundrefnol a chamfanteisio t.28
- 6.4 – Trais yn economi'r nos t.30
- 6.5 – Diogelwch menywod a merched mewn mannau cyhoeddus t.32
- 6.6 – Y bregusrwydd a'r risg uwch o drais ymhlith y rhai â ffyrdd o fyw ar y stryd t.34

7 Cydnabyddiaeth ........ t.36

8 Cyfeiriadau ........ t.37

9 Atodiad ........ t.38

# 1. Rhagair

Fel Prifddinas rydym yn falch o'n diwylliant bywiog, ein cymunedau amrywiol, ein heconomi sy'n tyfu, a'n bywyd nos llawn cyffro.

Mae Caerdydd yn gartref i tua 360,000 o bobl ac yn croesawu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd yn gyfrifol am gydlynu ein dull partneriaeth o atal trais, gan gadw Caerdydd yn lle diogel, heb ofn a bygythiad trais.

Mae trais yn fater iechyd cyhoeddus cymhleth ac yn ei ffurfiau niferus, mae'n tarfu ar union wead ein cymunedau. Mae'n taflu cysgodion hir ar deuluoedd, cymdogaethau a mannau cyhoeddus, gan rwystro ein gallu cyfunol i ffynnu. Dyna pam ei bod mor bwysig ein bod ni, ar draws gwasanaethau cyhoeddus, ochr yn ochr â'n partneriaid yn y sectorau preifat a gwirfoddol, yn gweithio gyda'n gilydd yn effeithiol i atal trais yn ein dinas yn ei holl ffurfiau.

Mae'r Strategaeth Atal Trais ar gyfer Caerdydd yn dyst i ymrwymiad ein dinas i fynd i'r afael â symptomau trais ac i wynebu'r achosion sylfaenol yn uniongyrchol, trwy addysg, ymgysylltu a grymuso. Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu dull gweithredu cynhwysfawr, amlasiantaethol sy'n pwysleisio atal fel sylfaen ein hymdrechion ar y cyd. Mae'n galw am lefel ddigynsail o gydweithio rhwng awdurdodau penodedig, sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau cymunedol ac unigolion.

Trwy gydol 2023-2024 mae partneriaid wedi ymchwilio i achosion trais, pwy sy'n cael eu heffeithio ganddo a ble a phryd y mae'n fwyaf cyffredin. Cafodd proffil tystiolaeth ei ddatblygu ac mae wedi llunio ein blaenoriaethau allweddol i dargedu ymyriadau tuag at ein cymunedau mwyaf agored i niwed.

Trwy ein blaenoriaethau byddwn yn parhau i herio ein hunain i sicrhau ein bod yn cael ein harwain gan dystiolaeth, a'n bod yn ystyriol o drawma, yn ymgysylltu â'n cymunedau, ac yn hyrwyddo ein cyfleoedd gyda phartneriaid. Mae ein mentrau'n amrywio o wella ymgysylltiad a chymorth ieuenctid, darparu plismona cymunedol, a meithrin amgylcheddau lle gall pob unigolyn deimlo'n ddiogel. Mae'r Strategaeth hon yn alwad i weithredu i bawb ddod at ei gilydd mewn ymdrech ar y cyd i atal trais yn ei holl ffurfiau.






# 2. Diben y Strategaeth

Mae trais yn broblem cyfiawnder troseddol ac iechyd cyhoeddus sylweddol a all gael effaith ddinistriol ar unigolion, cymunedau a'r boblogaeth a'r gymdeithas ehangach.

Ym mis Ionawr 2023, cyflwynodd y Llywodraeth y Ddyletswydd Trais Difrifol i sicrhau bod trais difrifol yn flaenoriaeth gydnabyddedig ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae'r Ddyletswydd wedi nodi'r gofynion canlynol:

- Gweithio gyda'n gilydd i greu asesiad anghenion strategol, i nodi'r mathau o drais a brofir yn ein cymunedau, ac i ddeall achos trais a nodi'r rhai sydd mewn perygl.
- Datblygu a chyhoeddi Strategaeth a arweinir gan bartneriaeth, sy'n amlinellu sut rydym yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr asesiad anghenion strategol.
- Adolygu cynnydd y Strategaeth yn flynyddol.

Y ddogfen hon yw Strategaeth Atal Trais Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd. Mae'n nodi ein hasesiad o drais lleol a fframwaith ein hymateb. Mae'n cyd-fynd â chynllun cyflawni blynyddol sy'n nodi'r camau penodol y byddwn yn eu cyflawni i leihau niwed trais yn ein dinas.



## Llywodraethiant ac Arweinyddiaeth


Mae **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd** yn dod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus a phenderfynwyr y Ddinas ynghyd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caerdydd. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros gyflawni gofynion y Ddyletswydd Trais Difrifol i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd, sy'n cynnwys sefydliadau o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gynnwys:

- Cyngor Caerdydd
- Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Cymru Ddiogelach

Mae'r **Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol** yn datblygu ac yn gweithredu strategaethau i fynd i'r afael â throseddau, anhrefn, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i ddiogelu pobl rhag camdriniaeth, camfanteisio a niwed.

Ar hyn o bryd mae'r Bartneriaeth yn cynnal pedwar cyfarfod maes blaenoriaeth craidd; Ffyrdd o Fyw ar y Stryd (digartrefedd a defnyddio sylweddau, iechyd meddwl), Datrys Problemau Lleol (ymddygiad gwrthgymdeithasol strategol), Prevent (Gwrth-eithafiaeth) ac Atal Trais (trais sy'n ymwneud â throseddolrwydd cyfundrefnol a chamfanteisio, trais yn economi'r nos, a thrais yn erbyn menywod a merched). Bydd strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn allweddol wrth gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth hon.







## Strwythur Llywodraethu Diogelwch Cymunedol Caerdydd

### POLISI

- Adolygu a sefydlu polisi a strategaeth
- Comisiynu grwpiau tasg a gorffen yn seiliedig ar faterion sy'n dod i'r amlwg
- Yn gyfeirio materion lleol i gyfarfodydd lle

Partneriaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Strategol

Ffyrdd o Fyw ar y Stryd ac Anghenion Cymhleth

Grŵp Atal Trais

Economi'r Nos

Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol Difrifol ac Ecsbloetio

**Grwpiau tasg a chwblhau**

- Materion leolrwydd y tu allan i'r lle
- Yn cyflawni polisi

Enghreifftiau:

- Trais yn ysgolion
- Cerbydau oddi ar y ffordd
- Llety Cymorth
- Gwarchodwyr canol y ddinas

### LLE

Butetown

Canol y Ddinas

Adamsdown a Splott

Caerau a Threlái

- Cynllun lleol a thaflen ddata
- Gyfeirio at ardaloedd polisi pan fo angen – O rheoli pebyll, I grwp polisi bywydau ar y stryd
- Mae wybodaeth yn llifo'n ôl ac ymlaen
- Yn dadansoddi effaith ac yn rhedeg pilotau
- Gwerthusiad o 'beth sy'n gweithio'
- Cysylltiad â chynghorwyr a chysylltiad â'r gymuned

## Cwmpas y Strategaeth

Mae’r Ddyletswydd Trais Difrifol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig nodi a lleihau mathau o drais difrifol yn eu cymunedau (Swyddfa Gartref, 2022).

Ond yng Nghymru, cytunwyd y byddai’r ymateb i’r Ddyletswydd yn cynnwys pob math o drais, gan y cydnabyddir bod arwyddion cynnar o drais yn aml yn rhagflaenydd i drais mwy difrifol yn y dyfodol. At ddibenion y strategaeth mae’r categorïau troseddau i’w hadrodd i’r heddlu canlynol wedi cael eu hystyried, fel ffordd o ddiffinio ein cwmpas o ‘drais’.

- Trais gydag anaf (ymosodiad gydag anaf, ymosodiad gyda’r bwriad o achosi niwed difrifol, ymosodiad gwaethygedig ar sail hil neu grefydd gydag anaf)
- Trais heb anaf (ymosodiad heb anaf, ymosodiad gwaethygedig ar sail hil neu grefydd heb anaf, bygythiadau i ladd)
- Stelcio ac aflonyddu (aflonyddu, aflonyddu gwaethygedig ar sail hil neu grefydd, stelcio)
- Treisio
- Troseddau rhywiol
- Troseddau meddu ar arfau

Gan fod Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a’r Fro ‘Mae yn ein dwylo ni’ eisoes yn canolbwyntio’n sylweddol ar gyflawni rhaglen o amcanion i fynd i’r afael â’r math penodol hwn o drais, bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar fathau eraill o drais, tra’n cydnabod y cysylltiadau a’r effeithiau i gam-drin domestig. Felly, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a’r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi ymrwymo i ***fynd i’r afael â phob math o drais*** a’r effaith ar ein cymunedau.



### Ein Hymrwymiad

Sicrhau dull sy’n seiliedig ar drawma ac iechyd cyhoeddus o fynd i’r afael ag achosion trais.

Cefnogi gorfodi’r gyfraith a’r system cyfiawnder troseddol i ddod â throseddwyr o flaen eu gwell, tra’n cefnogi’r dioddefwyr, y plant a’r teulu yr effeithiwyd arnynt.

Gweithio gyda’r gymuned i ddatblygu’r dulliau gweithredu a’r cymorth cywir sydd eu hangen ar gyfer newid systemig hirdymor.

Parhau i adeiladu ar fodel partneriaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth a chydweithio ar ymyriadau i fynd i’r afael â thrais.

Gweithredu dull sy’n cael ei arwain a’i lywio gan dystiolaeth o fynd i’r afael â materion cyffredin sy’n gysylltiedig â thrais sy’n cynnwys:

- economi nos canol y ddinas
- troseddau cyllyll a meddu ar arfau
- trais a brofir gan blant a phobl ifanc, troseddolrwydd cyfundrefnol a chamfanteisio ar y rhai sy’n agored i niwed
- defnyddio sylweddau ac anghenion cymhleth pobl agored i niwed
- diogelwch menywod a merched.



# 3. Deall Trais yng Nghaerdydd

## 3.1 Proffil ar Sail Tystiolaeth o Drais Difrifol yng Nghaerdydd

Er mwyn dod â thrais i ben, rhaid i ni gydnabod yn gyntaf bod trais yn fater iechyd cyhoeddus y gellir ei atal. Mae hyn yn golygu y gellir atal trais cyn iddo ddigwydd ac ymateb yn fwy diogel pan fydd yn digwydd, er mwyn cyfyngu ar niwed yn y dyfodol. Trwy nodi’r mathau o drais sy’n digwydd yng Nghaerdydd, gallwn ymateb orau i’r achos.

Mae Tîm Diogelwch Cymunedol Cyngor Caerdydd wedi cynnal proffil trais ar sail tystiolaeth gan ddefnyddio gwahanol setiau data partneriaeth, i greu llinell sylfaen o’r mathau o drais sy’n digwydd, ble maent yn digwydd, pwy sy’n ymwneud â thrais, a phryd mae trais yn digwydd yng Nghaerdydd. Mae hefyd yn cydnabod cyfyngiadau presennol ein data ac yn rhoi argymhellion i wella ansawdd y data, i gynnal ymchwil bellach i batrymau trais sy’n dod i’r amlwg, ac i wella’r gallu i rannu gwybodaeth rhwng partneriaid, i gyd fel y gallwn ddatblygu ein hymateb i fynd i’r afael â thrais.

### Cyfyngiadau Data ac Arsylwadau Rhybuddiol

Arsylw pwysig i’w wneud ar hyn o bryd yw bod yr ystadegau canlynol yn seiliedig yn bennaf ar ddigwyddiadau trais a adroddwyd i’r heddlu. Mae’n hysbys iawn bod swm sylweddol o drais yn cael ei dan-adrodd i’r heddlu, ac felly’n effeithio ar y darlun cyffredinol o drais yng Nghaerdydd.

Cyfyngiad sylweddol arall oedd diffyg cyd-destun neu ddealltwriaeth ansoddol y tu ôl i’r digwyddiadau a adroddwyd, gan greu anawsterau wrth nodi’r achosion sylfaenol y tu ôl i’r trais. Felly, bydd y Strategaeth hon yn defnyddio ‘Cymru Heb Drais - Fframwaith ar y cyd ar gyfer atal trais ymhlith Plant a Phobl Ifanc’ (Snowdon, et al, 2023), sy’n seiliedig ar ymchwil ac archwilio helaeth y tu ôl i achosion sylfaenol trais ledled Cymru.

Cymhwysir nodyn rhybuddiol wrth ddehongli’r ffigurau canlynol, gall cynyddiadau a gostyngiadau fod oherwydd nifer o resymau er enghraifft; gallai cynnydd yn swm y troseddau meddu ar arfau fod o ganlyniad i bresenoldeb cynyddol gan yr heddlu yn dilyn ymgyrch wedi’i harwain gan yr heddlu; gellid ystyried presenoldeb mewn adran damweiniau ac achosion brys yn rhywbeth cadarnhaol (digwyddiadau llai treisgar yn digwydd) a negyddol (posibilrwydd o dan-adrodd). Mae’r dadansoddiad wedi defnyddio data yn bennaf rhwng mis Ionawr 2022 a mis Rhagfyr 2022. Y rheswm am hyn oedd cynorthwyo casglu data mewn partneriaeth, gan ei wneud yn hawdd ei goladu. Yn ogystal â chydnabod ac osgoi’r effaith a gafodd COVID ar batrymau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae’r strategaeth hon yn ceisio archwilio’r wybodaeth hon ymhellach a’i defnyddio i lywio ein dull partneriaeth o fynd i’r afael â thrais.

## 3.2 Pa fathau o drais sydd yng Nghaerdydd?



Tra bod Heddlu De Cymru (sy'n cwmpasu Rhanbarth Caerdydd) yn adrodd y cyfraddau uchaf o droseddau treisgar mewn cyferbyniad â heddluoedd eraill Cymru.

Mae ffigyrau adrodd troseddau'r Swyddfa Gartref (iQuanta) yn dangos bod Caerdydd â'r **nifer isaf o ffigyrau Trais gydag Anaf** (fesul 1,000 o'r boblogaeth) o'i chymharu â 14 o'r heddluoedd mwyaf tebyg ledled y DU (1 Ionawr i 31 Rhagfyr 2022).




Troseddau ymosodiad gydag anaf, ymosodiad heb anaf, a stelcio ac aflonyddu yw'r rhan fwyaf o'r troseddau treisgar yng Nghaerdydd o hyd. **Bu cynnydd nodedig rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Mehefin 2023 (332 i 443 trosedd).**





Mae troseddau treisio'n dangos tuedd ar i lawr rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mehefin 2023 (27 i 19 trosedd), tra bod **'troseddau rhywiol categori arall yn dangos tuedd ar i fyny dros yr un cyfnod o amser (10 i 34 trosedd)**. Mae'r 'troseddau rhywiol difrifol eraill' wedi aros yn gyson.




Mae Heddlu De Cymru wedi adrodd gostyngiad cyffredinol mewn troseddau cyllyll ac offerynnau miniog rhwng 2019 a 2023 (801 i 628 trosedd).

Mae tuedd troseddau meddu ar arfau'n dangos **cynnydd bach rhwng** mis Ebrill 2022 a mis Mehefin 2023 (19 i 26 trosedd).





Rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ionawr 2023, bu **gostyngiad o 4.3% yn y presenoldeb mewn adran damweiniau ac achosion brys oherwydd ymosodiad**, wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol (1,274 i 1,219).





## 3.3 Ble mae trais yn fwyaf cyffredin yng Nghaerdydd?

Canol Dinas Caerdydd sy'n cofnodi'r cyfraddau digwyddiadau uchaf ar gyfer troseddau treisgar rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mai 2023 (cyfartaledd o 206.1 fesul 10,000 o'r boblogaeth), sy'n cynnwys trais gydag anaf, trais heb anaf, troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a throseddau rhywiol difrifol. Mae wardiau eraill â llawer o adrodd yn cynnwys **Butetown**, **Adamsdown**, **Caerau**, **Treláí** a **Glan-yr-afon**.




Mae'n ymddangos bod dadansoddiad o leoliadau y mae galw amdanynt yng Nghanol y Ddinas yn gysylltiedig â chalon canol y ddinas ac economi'r nos gan fod nifer uchel o safleoedd trwyddedig, mae ardaloedd eraill yn gysylltiedig â llwybrau teithio i mewn ac allan o'r ddinas.

Mae **Adamsdown, Caerau** a **Threláí** yn cofnodi'r gyfradd uchaf o droseddau stelcio ac aflonyddu rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mai 2023 (fesul 10,000 o'r boblogaeth), o gymharu â'r wardiau eraill ledled Caerdydd.

Mae **Caerau** a **Threláí** wedi profi cynnydd ymylol yn nifer y troseddau a adroddwyd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ionawr 2023 (cyfanswm o 14 trosedd). O gymharu â'r wardiau eraill, roedd 41.0% (**Caerau**) a 45.4% (**Treláí**) o'r troseddau trais gydag anaf a adroddwyd yn rhai domestig ac roedd 27.1% (**Caerau**) a 27.0% (**Treláí**) yn gysylltiedig â throsedd casineb.

Mae ward **Glan-yr-afon** wedi dangos cynnydd o 21.5% yn nifer y troseddau treisgar rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ionawr 2023. Mae 23.8% o'r troseddau trais gydag anaf a adroddwyd yn cael eu dosbarthu fel rhai domestig ac mae 13.4% yn cael eu dosbarthu fel rhai trosedd casineb.

Yn wahanol i wardiau eraill, mae **Adamsdown** wedi profi gostyngiad o 22.2% yn nifer y troseddau trais rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ionawr 2023 gyda 23.4% o'r troseddau'n rhai domestig a 12.0% yn gysylltiedig â throsedd casineb.

Mae **Butetown** wedi profi cynnydd o 15.6% yn nifer y troseddau trais gydag anaf rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ionawr 2023.

Mae methodoleg datrys problemau â blaenoriaeth wedi'i datblygu gan Heddlu De Cymru a'r Uned Atal Trais, a elwir yn Ymgyrch Sentinel. Mae hyn wedi cynnwys defnyddio data'r heddlu a data iechyd cyhoeddus, ynghyd â Mynegai Niwed Troseddau Caergrawnt (MNTC), sy'n system sy'n mesur difrifoldeb troseddau a niwed i ddioddefwyr (Sherman, Neyroud a Neyroud, 2016). Mae'r fethodoleg hon yn rhoi i ni ddadansoddiad daearyddol o ardaloedd blaenoriaeth neu batrolau heddlu i ganolbwyntio ein hymateb i drais arnynt.

Mae'r wardiau canlynol wedi nodi defnyddio'r fethodoleg hon:

- Canol y Ddinas
- Treganna a Threlái
- Llanedern a Llanisien
- Tredelerch a Llaneirwg
- Bae Caerdydd
- Y Tyllgoed
- Y Rhath a Cathays

Gellir priodoli trais yng Nghanol y Ddinas ac ym Mae Caerdydd i economi'r nos, poblogaeth dros dro uchel, a gofod preswyl wedi'i gyfuno mewn un lleoliad. Tra bod y wardiau eraill yng Nghaerdydd yn ardaloedd preswyl, y mae rhai ohonynt yn cael eu nodi ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), lle ceir y crynodiadau uchaf o sawl math o amddifadedd.

Mae ymchwil Fframwaith Cymru Heb Drais wedi dangos cysylltiad cryf rhwng tlodi a thrais. Mae anghydraddoldebau cymdeithasol sy'n ymwneud â statws economaidd-gymdeithasol, hil, ethnigrwydd, rhywioldeb, anabledd a rhyw yn cynyddu'r tebygolrwydd o drais yn digwydd. Mae'r Fframwaith yn defnyddio ystadegau cenedlaethol amrywiol i ddangos y cysylltiad rhwng anghydraddoldebau, nodweddion personol a'r tebygolrwydd o brofi effaith trais (Snowdon, L., Parry, B., Walker, A., Barton, E., 2023, t.25). Mae Asesiad Anghenion Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn tynnu sylw at y ffaith y canfuwyd bod amddifadedd yn ffactor risg sylweddol ar gyfer ymwneud â thrais yng Nghaerdydd (2022; Cresswell-Jones., P, 2023).








## 3.4 Pwy sy'n ymwneud â thrais neu pwy sy'n cael eu heffeithio gan drais?

Rhwng mis Ionawr 2017 a mis Medi 2022, yr oedrannau mwyaf cyffredin ar gyfer troseddau trais yn erbyn y person oedd rhwng

**20–39 oed**

Cyfran sylweddol o droseddau'n cynnwys pobl rhwng 15 a 19 oed yn digwydd (dros 2,000), gan gynnwys plant oedran ysgol uwchradd i oedolion oedran gweithio. (Data Canolfan Uned Atal Trais).

Mae data ar gyfer presenoldeb yn adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Athrofaol Cymru (mis Ionawr 2022 i fis Gorffennaf 2023) oherwydd ymosodiad yn dangos y canlynol:

Mae presenoldeb yn dechrau cynyddu o **15–19** oed (282)

Pobl **20–24** oed sydd â'r presenoldeb uchaf (416)

Pobl **25–29** oed sydd â'r presenoldeb isaf (298)

Mae presenoldeb yn parhau i ostwng ar ôl y categori oedran hwn.

Yn gyffredinol, nifer y dynion sy'n mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys oherwydd ymosodiad yn gyson uwch na menywod.



Yn 2002, roedd **86%** o'r cleifion yn yr adran damweiniau ac achosion brys gydag anafiadau yn ymwneud â thrais yn ddynion, ond mae hyn wedi gostwng i **77%** yn 2023.

Tra bod presenoldeb menywod wedi cynyddu 9% yn 2023.



Mae'n bwysig cydnabod a deall bregusrwydd y rhai sydd â 'ffyrdd o fyw ar y stryd', sy'n cynyddu'r risg o drais a dod yn ddioddefwr.

Mae'r term 'ffyrdd o fyw ar y stryd' yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at bobl agored i niwed sy'n treulio'r holl amser neu gryn dipyn o amser mewn lleoliad stryd ac sydd ag anghenion cymhleth sy'n deillio o gefndiroedd trawmatig, defnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl.

## 3.5 Pryd mae trais yn fwyaf cyffredin yng Nghaerdydd?

Er y gellir priodoli patrymau trais i raddau i dymhoroldeb, mae nifer o ffactorau eraill sy'n cyfrannu at dueddiadau a phatrymau trais. Mae'r datganiadau canlynol yn seiliedig ar arsylwadau cychwynnol data adran damweiniau ac achosion brys rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2022, ond byddai angen dadansoddiad mwy trylwyr wrth symud ymlaen.




Mae data presenoldeb yn yr adran damweiniau ac achosion brys ar gyfer ymosodiadau rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2022 yn dangos bod presenoldeb pobl ifanc 20 i 24 oed yn parhau'n eithaf cyson drwy gydol y flwyddyn, gydag uchafbwynt ym mis Mai a mis Gorffennaf.




Gellid priodoli presenoldeb pobl 30-39 oed yn yr adran damweiniau ac achosion brys i dueddiadau tymhorol gyda chynnydd yn ystod misoedd cynhesach y gwanwyn a'r haf a gostyngiad ym misoedd yr hydref a'r gaeaf.




Ar gyfer pobl 15-16 oed, mis Mawrth a mis Hydref oedd â'r swm uchaf o bresenoldeb yn yr adran damweiniau ac achosion brys. Yn ddiddorol, mae presenoldeb yn yr adran damweiniau ac achosion brys yn gostwng rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2022 ac yna'n dechrau cynyddu rhwng mis Awst a mis Hydref 2022.




I'r gwrthwyneb, ymhlith pobl 10-14 oed mae cynnydd drwy fis Mai i fis Gorffennaf 2022 ac yna gostyngiad rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2022.

(Mae'n bwysig nodi yma bod y data'n cwmpasu presenoldeb yn Ysbyty Athrofaol Cymru a allai gynnwys presenoldeb o ardaloedd eraill, nid trigolion Caerdydd yn unig).

Mae data Heddlu De Cymru a edrychodd ar y presenoldeb mewn adrannau damweiniau ac achosion brys oherwydd ymosodiad o ysbytai lluosog ar draws Uned Reoli Sylfaenol Caerdydd a'r Fro rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2023 yn dangos y canlynol:




Mis **Mai** (21%) a mis **Mehefin** (18%) oedd y misoedd a gofnododd y nifer uchaf o ymweliadau ag adran damweiniau ac achosion brys oherwydd ymosodiad.




Y dyddiau prysuraf oedd dydd Sadwrn (16%) a dydd Sul (18%). Y dydd lleiaf prysur oedd dydd Mercher (11%).




Y dydd lleiaf prysur oedd dydd Mercher (11%). Yr amseroedd mwyaf cyffredin oedd yn ystod y nos rhwng **6pm a hanner nos** (29%) a'r amseroedd lleiaf cyffredin oedd yn ystod y bore rhwng 6am a hanner dydd (18%). (Bryant., H, 2,023).







Mae dadansoddiad amserol o droseddau treisgar a adroddwyd i Heddlu De Cymru yng Nghanol y Ddinas yn dangos cynnydd rhwng 11pm a 2am, y gellir ei briodoli i economi'r nos. Tra mewn ardaloedd mwy preswyl, adroddodd y proffil fod trais yn tueddu i fod rhwng 11am a 5pm. Mae hyn felly yn dangos y gwahanol gyd-destun y gall trais ddigwydd ynddo a'r angen am ymateb gwahanol wrth fynd i'r afael â thrais.



3. Deall Trais yng Nghaerdydd

## 3.6 Beth yw canfyddiad pobl o drais yng Nghaerdydd?

Mae'n bwysig dal a deall y canfyddiadau a'r teimladau o ddiogelwch yn ein cymunedau, gan y bydd hyn yn ein helpu i fonitro ein heffaith strategol. Bydd hefyd yn ein helpu i ddeall ble mae troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu tan-adrodd i'r heddlu o bosibl.

Mae'r strategaeth hon yn ceisio ymgysylltu â'r cyhoedd i gasglu eu barn a chydgynhyrchu atebion ar gyfer newid hirdymor. Trwy ddadansoddi ymatebion i arolygon ac ymgynghoriadau gan bartneriaid, byddwn yn harneisio ein gallu i ymateb yn effeithiol i'r pryderon a fynegwyd gan ein cymunedau.

Mae enghreifftiau o waith ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynnwys Arolwg Holi Caerdydd, Arolwg Cymunedol Blynyddol Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, yr Arolwg Dinas sy'n Dda i Blant, Ap Symudol Street Safe Heddlu De Cymru, De Cymru'n Gwrando, a chydgynhyrchu a chanfyddiadau ymgynghori datblygiad fframwaith Cymru Heb Drais.

Mae Adroddiad Trosolwg o Ymgynghoriadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, sy'n rhoi trosolwg o'r amrywiol ymgynghoriadau sydd wedi digwydd yng Nghaerdydd drwy gydol 2022, yn tynnu sylw at faterion allweddol a nodwyd gan ddinasyddion sy'n ymwneud â 'Chymunedau Diogel, Hyderus a Grymus'.


Mae Arolwg Cymunedol Blynyddol Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru (2022) yn adrodd ar y safbwyntiau canlynol am blismona yng Nghaerdydd:



Mae **39.34%** yn cytuno bod yr heddlu'n trin pobl yn deg



Mae **50%** yn cytuno bod yr heddlu'n gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt



Mae **59.14%** â pharch at yr heddlu yn eu hardal leol



Mae **36.80%** ag ymddiriedaeth yn yr heddlu yn eu hardal leol



Mae **20.05%** yn cytuno bod yr heddlu'n gwneud gwaith da yn eu hardal leol

Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Cyflawni Lleol (CCLl, 2021), rhoddwyd rhestr i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt beth fyddai'n gwneud eu cymdogaeth yn lle da i fyw. Nododd 61.5% o'r ymatebwyr gyfraddau troseddau isel (diogelwch). Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr beth y gellid ei wneud i wella eu cymdogaeth leol ac roedd 40.1% eisiau i'w cymdogaethau gael eu gwneud yn ddiogelach.

Yn Arolwg Holi Caerdydd (2022) gofynnwyd i breswylwyr "Sut gellid atal trais yn eich barn chi?" Ac awgrymon nhw'r canlynol:

- Mwy o bresenoldeb gan yr heddlu
- Gweithredu yn erbyn troseddwyr
- Mwy o wasanaethau ieuenctid
- Gwasanaethau ar gyfer pobl ddigartref ag anghenion cymhleth
- Addysg a newid diwylliant cymunedol

# 4. Cefnogi Strategaeth a Pholisi Partneriaeth

Mae'n bwysig cydnabod y nifer sylweddol o strategaethau, polisïau a fframweithiau sydd wedi'u datblygu gan aelodau o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, sefydliadau allweddol a'r Llywodraeth, sy'n gweithio i fynd i'r afael â rhai o achosion sylfaenol trais a themâu trais sy'n dod i'r amlwg ledled Caerdydd. (Gellir gweld rhestr lawn ond nid gynhwysfawr yn Atodiad A1). Maent i gyd yn cyfrannu at yr hyn y mae Iechyd Cyhoeddus yn ei alw'n Sbectrwm Atal; Y 'tair haen o atal trais', sef:

**Atal Sylfaenol**: Atal trais cyn iddo ddigwydd, drwy drawsnewid amodau cymdeithasol fel annhegwch hiliol neu rywiol sy'n esgusodi, yn cyfiawnhau neu'n hyrwyddo trais.

**Atal Eilaidd**: Cefnogi pobl ar y cyfle cyntaf ar ôl iddynt brofi trais, defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma, a sicrhau bod pobl yn gwybod ble i fynd i gael cymorth.

**Atal Trydyddol**: Yr ymateb, y driniaeth a'r adsefydlu ar ôl i drais ddigwydd, yn ogystal ag atal niwed hirdymor, gan gynnwys erledigaeth neu gyflawni dro ar ôl tro.

Wrth ddefnyddio'r tair haen atal gyda'i gilydd, maent yn creu ymateb cynhwysfawr i drais. Bydd y strategaeth hon yn sicrhau cysylltedd ac yn creu cyfle i gryfhau a dilyn amcanion ychwanegol, i gyfrannu at y nod trosfwaol – Caerdydd Heb Drais.







# 5. Ein Dull Gweithredu

## 5.1 Adolygiad o Lenyddiaeth

Er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio dull gweithredu ymyrraeth gynnar ac ataliol sy'n seiliedig ar iechyd; mae ein dull gweithredu wedi bod yn seiliedig ar ymchwil bartneriaeth sy'n bodoli eisoes a dadansoddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o drais yng Nghaerdydd.

Roedd hyn yn cynnwys Asesiad Anghenion Strategol a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, datblygu proffil data o drais yng Nghaerdydd, cydnabod Model Atal Trais Prifysgol Caerdydd, a mabwysiadu fframwaith 'Cymru Heb Drais' Uned Atal Trais Cymru, sy'n dangos ffyrdd o fynd i'r afael â thrais ymhlith plant a phobl ifanc. Daeth y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol at ei gilydd ar sawl achlysur i drafod y data, y fframweithiau a'r ymchwil berthnasol i ddatblygu ymateb i fynd i'r afael â thrais yng Nghaerdydd.

### Model Caerdydd ar gyfer Atal Trais

Sefydlwyd Model Caerdydd ar gyfer Atal Trais gan Brifysgol Caerdydd ac mae'n nodi dull iechyd cyhoeddus o atal trais. Mae'n dilyn dull gweithredu amlasiantaethol sy'n dibynnu ar y defnydd strategol o wybodaeth o iechyd a gorfodi'r gyfraith i wella rhaglenni atal cymunedol. Sefydlwyd ymyriadau fel cwpanau plastig a gafodd effaith enfawr ar nifer yr ymosodiadau'n gysylltiedig â gwydr. Bydd ein strategaeth partneriaeth yn parhau i gefnogi'r dull gweithredu hwn trwy rannu gwybodaeth rhwng partneriaid, i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg.

### Asesiad Anghenion Strategol Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro

Cynhaliwyd Asesiad Anghenion Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru Caerdydd a'r Fro ym mis Gorffennaf 2023, gan ddod â'r holl awdurdodau penodedig o fewn gofynion y Ddyletswydd Trais Difrifol at ei gilydd, i ddarparu asesiad sylfaenol o drais difrifol sy'n effeithio ar Gaerdydd, a Bro Morgannwg. Amcanion yr asesiad oedd:

- Darparu trosolwg o'r dystiolaeth yn ymwneud â thrais difrifol, gan gynnwys y cyd-destun strategol a pholisi
- Darparu asesiad sylfaenol (llun cyfredol) o drais difrifol gydag epidemioleg a barn gan weithwyr proffesiynol lleol
- Darparu asesiad strategol o angen y cyhoedd o ran trais difrifol, gydag argymhellion i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth leol yn unol â gofynion y Ddyletswydd Trais Difrifol

Mae'n bwysig nodi nad oedd 'Trais Difrifol' wedi'i ddiffinio gan y Ddyletswydd Trais Difrifol, sy'n galluogi ardaloedd lleol i deilwra'r asesiad anghenion a chynllluniau cyflawni strategol dilynol yn seiliedig ar anghenion lleol. Ar gyfer yr Asesiad Anghenion Strategol hwn, cytunodd partneriaid i gynnwys adrannau penodol ar droseddau cyllyll, troseddau gynau, lladdiad, llinellau cyffuriau a chamfanteisio, trais ieuenctid mewn mannau cyhoeddus a gangiau, ac unrhyw themâu eraill sy'n dod i'r amlwg. Ni chafodd trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig na thrais rhywiol (VAWDASV) eu heithrio, ond ni chawson nhw eu cynnwys yn gyfan gwbl oherwydd Strategaeth VAWDASV Caerdydd a'r Fro sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r rhestr lawn o argymhellion i'w gweld ar wefan cyhoeddi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae crynodeb o'r argymhellion fel a ganlyn:

## Argymhellion Asesiad Anghenion Strategol Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro

Dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma

Casglu a rhannu data'n well

Ystyried yr Effaith ar Gydraddoldeb

Gwella dealltwriaeth o ganfyddiadau yn erbyn realiti

Cynyddu cysylltiad â gwybodaeth gwasanaethau cymorth

Gwelededd canlyniadau troseddau

Cydweithio ar raglenni partneriaeth

Rhannu gwybodaeth bartneriaeth yn fwy

Canolbwyntio ar ystod oedran eang, nid dim ond pobl ifanc

Gwerthuso rhaglenni presennol – dull gweithredu 'beth sy'n gweithio'

Dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fynd i'r afael ag ardaloedd blaenoriaeth







### 'Cymru Heb Drais' – Fframwaith ar y Cyd ar gyfer Atal Trais ymhlith Plant a Phobl Ifanc, 2023 (a ddatblygwyd gan yr Uned Atal Trais ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru)


Gwnaeth Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Uned Atal Trais bartneru â Peer Action Collective, tîm o bobl ifanc sy'n dylunio ac yn cynnal ymchwil am brofiad plant a phobl ifanc o drais. Cynhaliwyd nifer o ymarferion gwrando gyda phlant a phobl ifanc er mwyn creu canllaw i asiantaethau a sefydliadau fynd i'r afael â thrais a diogelu'r rhai y mae trais yn effeithio arnynt.

Nododd yr ymarferion gwrando fod y themâu allweddol canlynol yn effeithio ar blant a phobl ifanc sydd dim ond eisiau teimlo'n ddiogel a bod yn nhw eu hunain.

- Bwlio mewn ysgolion ac ar-lein
- Trais ar sail rhywedd
- Aflonyddu rhywiol
- Troseddau cyllyll
- Trais corfforol
- Troseddau casineb (cam-drin traws, cam-drin hiliol, homoffobia)



Datblygwyd dull iechyd cyhoeddus system gyfan o gefnogi partneriaid yng Nghymru i sicrhau bod amser, arian ac adnoddau gwerthfawr yn cael eu defnyddio i weithredu strategaethau a gweithgareddau i atal trais ymhlith plant a phobl ifanc. Mae'r strategaeth hon yn defnyddio'r fframwaith hwn sy'n cynnwys y 9 strategaeth a nodwyd, ar draws 3 lefel o ddull gweithredu; unigol a pherthynas, cymuned a chymdeithas, sydd fel a ganlyn:



# 5.2 Ein Hegwyddorion Arweiniol

Mae elfennau cyfrannol ymchwil a thystiolaeth wedi ein harwain i ddatblygu egwyddorion arweiniol i lywio ein hymrwymiad partneriaeth - Caerdydd Heb Drais.

## Arweinir gan Ddata

Mae'n rhaid i'n dull o atal a mynd i'r afael â thrais gael ei ysgogi gan ddull gweithredu a arweinir gan dystiolaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn deall y materion y mae cymunedau'n eu hwynebu ac yn cefnogi'r ardaloedd sydd ei angen fwyaf. Mae angen gwerthuso rhaglenni ac ymyriadau a chael tystiolaeth gadarn i ddangos eu heffeithiolrwydd. Bydd hyn yn galluogi partneriaid i ddatblygu arfer gorau a chryfhau'r cyfleoedd i gynnal rhaglenni atal ac ymyrryd â thrais.

**Felly, byddwn yn:**

- Sefydlu ***trefniadau rhannu gwybodaeth*** gyda phartneriaid, er mwyn sicrhau y gellir defnyddio gwybodaeth werthfawr i ddatblygu a siapio ein hymateb i drais
- Ceisio cyfleoedd i gasglu gwybodaeth ansoddol a meintiol, i lunio ein gwaith o ***ddatblygu a gwerthuso ymyriadau***, drwy ymgysylltu â'r gymuned neu fecanweithiau sefydliadol.
- Sicrhau ein bod yn defnyddio tystiolaeth i ***ddarparu ymateb wedi'i dargedu*** gyda'n prosiectau, ein hymyriadau a'n hymgyrchoedd, er mwyn helpu'r cymunedau sydd ei angen fwyaf.

## Seiliedig ar Drawma

Mae Fframwaith Seiliedig ar Drawma Cymru a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ddull cymdeithasol o ddeall, atal a chefnogi effeithiau trawma ac adfyd sy'n cynnwys pobl o bob oedran, o blant a phobl ifanc i oedolion hŷn. Bydd y strategaeth hon yn mabwysiadu'r nodau hyn, drwy ddatblygu dull systemau cyfan o gefnogi anghenion pobl sydd wedi profi adfyd a thrawma.

**Felly, byddwn yn:**

- Defnyddio ***dull gweithredu cyffredinol***: sy'n cefnogi ac yn cwmpasu dulliau gweithredu a arweinir gan y gymuned, mentrau atal a therapïau arbenigol yn rhagweithiol
- Defnyddio ***dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y person***: mae'r person bob amser wrth wraidd dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma. Mae'n defnyddio dull traws-sector cydweithredol a chydgynhyrchiol o nodi, deall a chefnogi anghenion y person.
- Defnyddio ***dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar berthnasau***: mae perthnasau diogel, cefnogol, empathig, tosturiol ac ymddiriedus yn ganolog i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma
- Defnyddio ***dull gweithredu gwydn sy'n canolbwyntio ar gryfder***: gan adeiladu ar wydnwch naturiol unigolion, teuluoedd a chymunedau
- ***Cynhwysol***: deall effaith anghydraddoldebau diwylliannol, hanesyddol a rhywedd a chynnwys pawb mewn cymdeithas.







## Ymgysylltu â'r Gymuned

Trwy gynnwys ein cymunedau wrth ddatblygu atebion i fynd i'r afael â thrais gallwn sicrhau bod yr ymyriadau yn berthnasol yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, yn cynnwys y gymuned gyfan, er mwyn cyfrannu at herio normau a gwerthoedd cymdeithasol.

**Felly, byddwn yn:**

- Creu cyfleoedd i ***gyd-gynhyrchu ymyriadau*** gyda'n cymunedau, gan eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau, fel eu bod yn berthnasol i'r rhai y bwriedir iddynt eu cefnogi
- Mabwysiadu'r ***Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant*** ar gyfer gwneud penderfyniadau, polisi ac ymarfer
- Rhagweithiol wrth gynnwys y ***cymunedau ehangach*** yn y gwaith o atal trais, gan gynnwys elusennau a/neu wasanaethau sy'n bodoli eisoes
- Codi ymwybyddiaeth gyda chymunedau am effeithiau a chanlyniadau trais, i ***herio normau a gwerthoedd cymdeithasol***.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau dull iechyd cyhoeddus o atal trais. Gyda'n gilydd, gallwn elwa o ystod ehangach o arbenigedd a gwybodaeth, rhannu gwybodaeth i wella ein hymateb, ehangu ein hymwybyddiaeth o adnoddau a rhwydweithiau, cynyddu ein hopsiynau i atal trais a gweithio'n fwy effeithlon yn ein hymateb.

**Felly, byddwn yn:**

- Parhau i yrru ***cyfleoedd rhannu gwybodaeth*** gyda phartneriaid, i gryfhau ein dealltwriaeth o drais, targedu'r ardaloedd sydd angen y swm mwyaf o gymorth a gwerthuso ein cynnydd
- Parhau i fyfyrio ar ein tirlun partneriaeth a'n ***trefniadau llywodraethu*** i sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn ein galluogi i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol
- Parhau i ***gydweithio a gwerthuso prosiectau***, ymyriadau ac ymgyrchoedd, gan nodi arfer gorau
- Parhau i nodi ***cyfleoedd cyllid*** a sefydlu cyfleoedd i alinio â phartneriaid, i gynnig cymorth mwy cynaliadwy i'n cymunedau.

## 5.3 Ein Model

### Gwybod y ffeithiau

Gweithio mewn partneriaeth i ddeall a diffinio'r broblem. Ymchwilio i'r mater mewn ardal ddaearyddol neu grŵp poblogaeth diffiniedig. Asesu'r achosion sylfaenol a'r ffactorau risg ac amddiffynnol. Integreiddio mewnwelediad gan unigolion, cymunedau a phobl sydd â phrofiad bywyd i'r dadansoddiad.

### Archwilio'r atebion

Asesu'r dystiolaeth o 'beth sy'n gweithio' i atal trais. Defnyddio'r dystiolaeth i lywio atebion wedi'u cydgynhyrchu'n lleol sy'n berthnasol yn gyd-destunol ac yn ddiwylliannol. Datblygu damcaniaeth o newid sy'n esbonio sut a pham y bydd yr ymyriad yn atal trais.

### Gweithredu a gwerthuso

Gweithredu, monitro, gwerthuso a mesur cynnydd. Cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer rhaglennu effeithiol ar gyfer atal trais.

### Addasu a chynyddu'r hyn sy'n gweithio

Newid a datblygu dulliau o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir yn seiliedig ar werthuso a monitro dangosyddion lefel poblogaeth. Cynyddu rhaglenni sydd ag effeithiolrwydd profedig i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Gweithio gyda phartneriaid i gydlynu llwybrau atal trais cynhwysfawr ar draws y sbectrwm atal.

Mae dull iechyd cyhoeddus Sefydliad Iechyd y Byd o atal trais yn aml yn cael ei ddefnyddio fel fframwaith cyfeirio ar gyfer datblygu proses systematig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer atal trais. Mae ein dull gweithredu yn defnyddio'r fframwaith hwn tra'n cynnwys ein hegwyddorion arweiniol

'Cymru Heb Drais' – Fframwaith ar y Cyd ar gyfer Atal Trais Ymhlith Plant a Phobl Ifanc, 2023.







# 6. Ein Blaenoriaethau

Mae'r blaenoriaethau partneriaeth canlynol wedi'u datblygu drwy gynnal gweithdai gyda phartneriaid yn y Diwrnod Datblygu Strategaeth Atal Trais a thrwy ystyried ein proffil trais yng Nghaerdydd yn ofalus. Daeth y digwyddiad hwn â'r holl awdurdodau penodedig o dan y Ddyletswydd Trais Difrifol at ei gilydd, ynghyd â phartneriaid ac arbenigwyr dibynadwy sy'n gweithio yn y maes hwn. Defnyddiodd y bartneriaeth y fframwaith Cymru Heb Drais ar gyfer llunio ein dull gweithredu, ac roedd y partneriaid yn gallu nodi arfer da a meysydd i'w datblygu. Felly mae'r blaenoriaethau canlynol wedi'u sefydlu i amlinellu ein hymateb i fynd i'r afael â thrais yng Nghaerdydd.

1. Trais sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.
2. Troseddau cyllyll a meddu ar arfau ymosodol.
3. Troseddau cyfundrefnol a chamfanteisio.
4. Trais yn economi'r nos.
5. Diogelwch menywod a merched mewn mannau cyhoeddus.
6. Y bregusrwydd a'r risg uwch o drais ymhlith y rhai â ffyrdd o fyw ar y stryd.

## Blaenoriaeth 1 Trais sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc

Cydgynhyrchodd Uned Atal Trais Cymru ddiffiniad o drais ymhlith plant a phobl ifanc gyda phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru, sydd fel a ganlyn:

*Mae trais ymhlith plant a phobl ifanc yn derm ymbarél ar gyfer digwyddiadau trais a cham-drin, neu fygythiad ohonynt, rhwng y rhai o dan 25 oed. Gall fod yn gorfforol, yn eiriol, yn seicolegol, yn rhywiol neu'n economaidd. Gall ddigwydd yn y cartref, mewn lleoliadau addysg, yn y gweithle, yn y gymuned neu ar-lein.*

Mae cryn dipyn o ymchwil wedi mynd i ddeall effeithiau trais ymhlith plant a phobl ifanc a sut i'w atal. Mae Uned Atal Trais (UAT) Cymru wedi cynhyrchu sawl adroddiad sy'n darparu asesiad o drais ymhlith plant a phobl ifanc o dan 25 oed ac mae wedi creu 'Cymru Heb Drais – Fframwaith ar y cyd ar gyfer atal trais ymhlith Plant a Phobl Ifanc' (Snowdon et al. 2023a). Mae'r ymchwil hon yn dangos nad yw trais yn effeithio ar bobl yn gyfartal, mae plant sy'n byw yn ardaloedd tlotaf y DU saith gwaith yn fwy tebygol o ymwneud â throseddau treisgar fel oedolion ifanc. Mae plant a phobl ifanc sy'n profi trais corfforol neu esgeulustod yn gynnar yn eu bywydau mewn mwy o berygl o brofi trais yn ddiweddarach mewn bywyd. Cydnabyddir hefyd fod dulliau atal fwyaf effeithiol pan gânt eu gweithredu gyda phlant a phobl ifanc.

Bydd Fframwaith Cymru Heb Drais yn sail i'n strategaeth fel ein bod yn ymwreiddio dull gweithredu iechyd cyhoeddus, atal ac ymyrryd yn gynnar. Gallai hyn gynnwys rhoi cymorth i deuluoedd sy'n byw mewn tlodi, fel mynediad at dai fforddiadwy, addysg a gofal iechyd. Gallai hefyd gynnwys dangos esiampl gadarnhaol i bobl ifanc a rhoi cyfleoedd iddynt i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo hunan-barch a hyder, fel chwaraeon, cerddoriaeth a chelf.

### Ein Blaenoriaeth:

- Bod yn fan lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn byw yn rhydd o effeithiau trais.

### Byddwn yn:

- Datblygu gweithgareddau ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n hyrwyddo perthnasau teuluol cadarnhaol ac yn creu lle diogel cefnogol ar gyfer cysylltu ag eraill.
- Nodi'r gwasanaethau cymorth a gynigir i grwpiau wedi'u targedu o blant a phobl ifanc y mae trais yn effeithio arnynt.
- Cefnogi amrywiaeth o raglenni cymunedol cydlynol sy'n ennyn diddordeb plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol gydag oedolion y gellir ymddiried ynddynt.
- Darparu amrywiaeth o ymyriadau ac adnoddau i gefnogi ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yn eu hymateb i drais a meddu ar arfau.
- Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc am eu profiadau a'u cynnwys wrth ddod o hyd i atebion yn y gymuned i fynd i'r afael â thrais.
- Cefnogi plant a theuluoedd sydd â pherthnasau mewn carchar drwy roi cymorth ac arweiniad i gryfhau eu perthnasau teuluol.





## Partneriaeth yn ymarferol

**School of Hard Knocks**





**"Mae School of Hard Knocks wedi bod yn gyfle unwaith mewn oes i mi."**

**Disgybl Blwyddyn 10**

Rhaglen datblygu rygbi sy'n iach, yn hwyl, yn heriol ac yn gyfoethog. Mae'r tîm o hyfforddwyr ac arbenigwyr ymddygiad yn mentora ac yn datblygu pobl ifanc drwy gyfuniad o rygbi, gweithdai datblygiad personol a sesiynau un i un bob wythnos o'r flwyddyn ysgol.

Yn 2023 sicrhaodd Cyngor Caerdydd gyllid parhaus yn Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog, lle bydd plant yn datblygu pum sgil bywyd: Hyder, Cyfathrebu, Ymrwymiad, Cydlyniant a Rheolaeth. Gwelwyd hefyd fod hyn yn gwella presenoldeb yn yr ysgol, iechyd corfforol a lles meddyliol.

**"Mae'n ffordd dda i mi deimlo'n hyderus am fy hun trwy chwarae rygbi."**

**Disgybl Blwyddyn 9**

## Blaenoriaeth 2 Troseddau cyllyll a meddu ar arfau ymosodol

Er bod nifer y troseddau'n cynnwys cyllyll a gwrthrychau miniog wedi bod yn gostwng ers 2020, mae nifer yr atgyfeiriadau i'r heddlu am droseddau meddu ar arfau wedi cynyddu ychydig yn ystod y 12 mis diwethaf. Gallai'r cynnydd hwn fod, yn rhannol, oherwydd mwy o ymwybyddiaeth o niwed meddu ar arfau a'r ffaith bod mwy o wasanaethau cymorth ar gael. Y naill ffordd neu'r llall, mae cysylltiad clir rhwng meddu ar arfau a'r tebygolrwydd o drais yn digwydd, felly mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddatblygu negeseuon cymunedol effeithiol am ganlyniadau cario arf, gyda neu heb ddigwyddiad treisgar yn digwydd.

Mae'r 'Ymgyrch Ddim Yr Un', dan arweiniad Heddlu De Cymru a'r Uned Atal Trais yn ymgyrch i addysgu pobl ifanc 11-16 oed am ganlyniadau cario cyllell, drwy ddarparu pecyn addysgol o wybodaeth i athrawon, rhieni, ffrindiau a theulu. Y nod yw lleihau nifer y troseddau cyllyll a nifer y bobl sy'n eu cyflawni.

Bydd y strategaeth hon yn adeiladu ar y gwaith presennol gyda sefydliadau ategol fel St Giles Trust, Media Academy Cymru a Gweithredu Dros Blant, i addysgu a chefnogi'r rhai sydd mewn perygl a'u helpu i wneud dewisiadau bywyd gwell.

### Ein Blaenoriaeth:

- Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â throseddau cyllyll a meddu ar arfau ymosodol yn y gymuned, drwy godi ymwybyddiaeth o'r effaith a'r niwed sylweddol sy'n gysylltiedig â'r math hwn o drais, ymhlith pawb sy'n ymwneud ag ef.

### Byddwn yn:

- Cefnogi ymgyrchoedd ac ymyriadau sy'n atal pobl rhag cario neu feddu ar arfau ymosodol a chodi ymwybyddiaeth o'r canlyniadau a'r effaith ar y gymuned.
- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r System Cyfiawnder Troseddol, a'u hannog i ymwneud â rhaglenni dargyfeiriol a chefnogol.
- Cynyddu hyder y cyhoedd wrth adrodd am droseddau treisgar ac annog dioddefwyr a thystion i fanteisio ar wasanaethau sy'n seiliedig ar drawma i gefnogi eu hadferiad.
- Byddwn yn canolbwyntio ar gymunedau penodol sydd angen mwy o amddiffyniad a chymorth, drwy gynnal patrolau ychwanegol gan yr heddlu ac allgymorth cefnogol, er mwyn lleihau trais yn ein cymunedau.





## Partneriaeth yn ymarferol

### Media Academy Cymru: Braver Choices

Mae Braver Choices yn becyn pwrpasol o ymyriadau un i un ar gyfer pobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl o ymwneud ag arfau neu sydd eisoes yn ymwneud â nhw. Mae'r rhaglen 12 wythnos wedi'i dylunio i helpu pobl ifanc i herio'r naratif ar droseddau cyllyll a chario arfau, gan eu grymuso i greu hunaniaeth gadarnhaol a gwneud dewisiadau bywyd cadarnhaol.

**"Dwi'n sylweddoli nawr, dyw e jyst ddim yn werth e. Roeddwn i'n meddwl fy mod i'n hamddiffyn fy hun ond mewn gwirionedd roeddwn i ddim ond yn cynyddu'r tebygolrwydd o niwed yn cael ei achosi i fi ac i fy ffrindiau."**

**Person ifanc gwrywaidd, 15 oed**



## Blaenoriaeth 3 Troseddau cyfundrefnol a chamfanteisio

Mae 'llinellau cyffuriau' yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau troseddol cyfundrefnol sy'n ymwneud ag allforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu fwy o ardaloedd mewnforio o fewn y DU, gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol pwrpasol neu fath arall o "linell fargen". Maent yn debygol o gamfanteisio ar blant ac oedolion sy'n agored i niwed i symud a storio'r cyffuriau a'r arian a byddant yn aml yn defnyddio gorfodaeth, bygythiad, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau.

Mae Heddlu De Cymru wedi llwyddo i darfu ar nifer o 'linellau cyffuriau' drwy nifer o ymgyrchoedd heddlu, ac rydym wedi gweithio mewn partneriaeth i nodi unrhyw ddioddefwyr, brodyr a chwiorydd a theuluoedd fel y gellir cynnig cymorth sy'n seiliedig ar drawma iddynt.

Bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar y trais sy'n gysylltiedig ag anhrefn rhwng gangiau cystadleuol neu grwpiau trosedd cyfundrefnol, a chamfanteisio'n droseddol ac yn rhywiol ar bobl sy'n agored i niwed. Bydd hefyd yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid i nodi'r ardaloedd a'r unigolion hynny sydd fwyaf mewn perygl o gael eu camfanteisio, trwy ein fforwm partneriaeth SAFE (Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio).

### Ein Blaenoriaeth:

- To embed a multi-agency and strategic approach to the prevention and disruption of exploitation linked to organised crime, which will reduce the number of people being exposed to the associated violence and hidden harms.

### Byddwn yn:

- Datblygu amrywiaeth o adnoddau a fydd yn codi ymwybyddiaeth o arwyddion camfanteisio a sut i adrodd am bryderon yn y gymuned. Gyda'r nod o sicrhau bod diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion rhag camfanteisio yn 'Fusnes Pawb'.
- Nodi sefydliadau arbenigol sy'n gallu gweithio gyda grwpiau wedi'u targedu o bobl sy'n agored i niwed i'w hatal rhag dioddef camfanteisio neu gael eu denu i droseddau cyfundrefnol.
- Nodi cymorth hygyrch i ddioddefwyr a theuluoedd y mae camfanteisio yn effeithio arnynt i adfer ac ailadeiladu eu bywydau er mwyn atal camfanteisio pellach.
- Gweithio mewn partneriaeth i gasglu a rhannu gwybodaeth berthnasol i darfu ar weithgareddau gangiau/grwpiau troseddol cyfundrefnol ac amddiffyn y rheini sy'n dioddef camfanteisio.





## Partneriaeth yn ymarferol

### Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd: Virtual Decisions Gangs

Mae hwn yn brofiad realiti rhithwir a ffilm drochi 8 munud sy'n edrych ar fynd i'r afael â diwylliant gangiau, trais ieuenctid ac ymddygiadau cymryd risg. Drwy'r ffilm 8 munud, bydd pobl ifanc yn cael dewis eu llwybr eu hunain. Mae hyn yn cael ei ddilyn gyda gweithdai rhyngweithiol a chreadigol lle mae cyfle i ddeall profiad pobl ifanc a'u lefelau dealltwriaeth ynghylch y mater hwn.

- Dywedodd 90% fod y sesiynau'n gwneud iddynt feddwl am ganlyniadau eu gweithredoedd.
- Dywedodd 85% eu bod nawr yn gallu adnabod arwyddion cynnar meithrin perthnasau amhriodol.
- Dywedodd 81% eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd.
- Gwnaeth 89% fwynhau'r sesiynau

Rhai dyfyniadau gan y bobl ifanc oedd:

"Hollol wych, byddwn i'n bendant yn ei wneud eto."

"Roedd yn hwyl ac gwnaeth fy helpu i ddysgu nad ydw i eisiau bod mewn gang."




"Dwi wedi dysgu am droseddau cyllyll a materion treisgar."

## Blaenoriaeth 4 Trais yn economi’r nos

Mae economi nos canol y ddinas yn galw mawr ar gyfer yr holl bartneriaid o ran materion sy’n ymwneud â diogelwch cymunedol, oherwydd y nifer uchel o ymwelwyr, bywyd nos deniadol, digwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth mawr a phoblogaethau dros dro sy’n datblygu.

Dros y blynyddoedd bu cyfoeth o ymyriadau cefnogol sy’n ymateb i’r galw sy’n deillio o faterion sy’n ymwneud â diogelwch cymunedol. Er enghraifft, i gefnogi’r rhai sy’n feddw iawn ac a allai fod yn agored i niwed, mae Canolfan Triniaeth Alcohol Iechyd Cyhoeddus, a grwpiau diogelu gwirfoddol fel Bugeiliaid Stryd a’r Cynllun Bws Myfyrwyr.

### Canolfan Triniaeth Alcohol

Cyfleuster Bwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro, a all helpu i gefnogi’r rhai a fyddai fel arall yn gorfod mynd adran damweiniau ac achosion brys i gael help. Gall yr Heddlu, ynghyd â’r Bugeiliaid Stryd a’r Bws Diogelwch Myfyrwyr ddod ag unigolion i’r cyfleuster i gael help.

### Bugeiliaid Stryd

Mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, Cyngor Sir Caerdydd, Prifysgol Cymru, Bwrdd Iechyd De Cymru a busnesau lleol. Mae bugeiliaid stryd yn wirfoddolwyr hyfforddedig o eglwysi lleol y mae ein cymuned yn bwysig iddynt. Maent yn patrolio rhwng 10pm a 4am bob nos Wener a nos Sadwrn i ofalu am, gwrando ar a helpu pobl sydd allan ar y strydoedd.

Bu nifer o ymgyrchoedd i dynnu sylw at negeseuon diogelwch a naratifau diogelu, fel yr ymgyrch Drink Aware, yr ymgyrch OktoAsk, #DrinkLessEnjoyMore, creu Siarter Diogelwch Menywod mewn partneriaeth â Caerdydd AM BYTH. Bydd y strategaeth hon yn ceisio adeiladu ar yr ymgyrchoedd hyn gan hyrwyddo’r ffyrdd diogel o fwynhau noson allan.

### Ein Blaenoriaeth:

- Gweithio mewn partneriaeth i atal trais rhag digwydd yn economi’r nos drwy nodi risgiau a bregusrwydd posib, gan sicrhau bod pawb yn teimlo’n ddiogel yn y ddinas ar ôl iddi dywyllu.

### Byddwn yn:

- Darparu a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth a mannau diogel amrywiol sydd ar gael i ddefnyddwyr economi’r nos pan fyddant yn agored i niwed neu’n teimlo’n anniogel. Er enghraifft, y Ganolfan Triniaeth Alcohol, y Stiwardiaid Nos, yr Ap Safe Places, y Bugeiliaid Stryd a’r Bws Diogelwch Myfyrwyr.
- Datblygu dull gweithredu lleihau niwed i leihau’r risg o niwed o alcohol a sylweddau eraill. • Datblygu’r dull gweithredu hwn gyda phartneriaid allweddol fel safleoedd trwyddedig, yr heddlu, iechyd, colegau a phrifysgolion.
- Cefnogi pob sefydliad sy’n gweithredu yn economi’r nos gyda gwybodaeth ei weithlu am faterion fel, ond heb fod yn gyfyngedig i, drais rhywiol, sbeicio diod a chamfanteisio, trwy roi cyfleoedd iddo gael mynediad at Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Bod yn Agored i Niwed.





## Partneriaeth yn ymarferol

### Heddlu De Cymru: Bws Diogelwch

Mae Bws Diogelwch Caerdydd yn ymyriad partneriaeth, gan ddiogelu pobl sy’n agored i niwed ar strydoedd Caerdydd gyda’r nos.

Mae’r bysus, y mae swyddogion yr heddlu a gwirfoddolwyr sy’n fyfyrwyr yn gweithio arnynt, yn cario hanfodion fel pecynnau Cymorth Cyntaf, gwefrwyr ffôn, a dŵr. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae’r fenter wedi helpu cannoedd o bobl yr oedd eu diogelwch personol mewn perygl i gyrraedd eu cartref neu fan diogel arall, fel y Ganolfan Triniaeth Alcohol.

Er bod y Bws Diogelwch yn canolbwyntio ar ddiogelwch myfyrwyr ac yn gweithredu’n fwy helaeth yn ystod oriau brig calendr y myfyrwyr, fel cyfnod y Glas a’r Nadolig, mae’r gwasanaeth ar gael i bob aelod o’r cyhoedd.

Nid yw’r bws yn gweithredu bob nos ond ar nosweithiau prysur yng nghanol y ddinas. Yn 2023, ar gyfartaledd, helpodd y bws a’r staff tua 20 o bobl bob nos yr oedd y gwasanaeth yn gweithredu.




Dywedodd y swyddog cyswllt myfyrwyr, PC Michael Neate, o Heddlu De Cymru:

**“Mae’r bysus yn helpu 20 o bobl bob nos ar gyfartaledd. Mae rhai wedi meddwi’n fawr, ac mae eu diogelwch personol mewn perygl amlwg. Mae’r fenter hon yn ein galluogi i adnabod y rhai sydd mewn amgylchiadau llen maen nhw’n agored i niwed a’r rhai sydd fwyaf mewn angen a sicrhau eu bod yn mynd yn ôl yn ddiogel i’w cartrefi neu’r Ganolfan Triniaeth Alcohol.”**

## Blaenoriaeth 5 Diogelwch menywod a merched mewn mannau cyhoeddus

Mae Deddf VAWDASV 2015 (Cymru) yn ddarn craidd o ddeddfwriaeth sy'n gosod y llwyfan ar gyfer VAWDASV yng Nghymru. Mae'n hyrwyddo'r egwyddor bod atal a mynd i'r afael â thrais a cham-drin yn 'gyfrifoldeb i bawb', gan feithrin dull ar y cyd ar draws cymunedau, gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau. Er bod y Ddeddf yn ymwneud ag 'awdurdodau perthnasol', trwy ymgorffori'r egwyddorion hyn mewn arferion diogelwch cymunedol, gallwn gryfhau cydweithredu amlasiantaethol i hwyluso ymyrraeth gynharach, cefnogi ac amddiffyn dioddefwyr, a dwyn i gyfrif y rhai sy'n achosi niwed. Ar ben hynny, mae Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn cydnabod plant fel dioddefwyr VAWDASV yn eu rhinwedd eu hunain.

**CEDAW –** y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod. Mae CEDAW, sy'n cael ei adnabod fel **Bil Hawliau Menywod**, yn gytundeb byd-eang sy'n hyrwyddo **hawliau menywod a chydraddoldeb**, gan dywys dinasoedd fel Caerdydd i adeiladu **cymunedau tecach a mwy diogel.**

Mae Strategaeth VAWDASV Caerdydd a'r Fro 2023 i 2028 yn nodi sut mae'r dyletswyddau hyn yn cael eu taclo yn y rhanbarth a sut y bydd yn cefnogi'r strategaeth genedlaethol i atal, amddiffyn a chefnogi'r rhai y mae VAWDASV yn effeithio arnynt. Mae'r Arolwg Troseddau ar gyfer Cymru a Lloegr yn cynnig ystadegau ar nifer y digwyddiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a gofnodwyd fesul ardal heddlu. Cofnododd Heddlu De Cymru 15,709 o ddigwyddiadau rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, mae hyn yn gynnydd o 345 o ddigwyddiadau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'n hysbys bod cam-drin domestig yn cael ei dan-adrodd yn eang.

Er bod Strategaeth 'Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol' (VAWDASV) bresennol Caerdydd a'r Fro wedi gosod sylfaen gadarn trwy ganolbwyntio ar leoliadau domestig, mae ein ffocws yn symud i fannau cyhoeddus. Trwy gydweithio, ymgysylltu â'r gymuned ac ymyriadau wedi'u targedu, ein nod yw creu mannau mwy diogel i fenywod a merched yng Nghaerdydd.

### Ein Blaenoriaeth:

- Gwella diogelwch menywod mewn mannau cyhoeddus yng Nghaerdydd drwy weithio gyda phartneriaid i nodi lleoliadau allweddol lle mae angen gweithredu ymyriadau, prosiectau ac ymgyrchoedd sy'n helpu i godi ymwybyddiaeth.

### Byddwn yn:

- Ymgorffori hyfforddiant a chydweithredu amlasiantaethol, i gryfhau ymyrraeth gynnar, gwella cymorth i ddioddefwyr, a sicrhau ymateb cyson a gwybodus i VAWDASV o fewn cymunedau.
- Ceisio llais menywod a merched i ddeall lle maent yn teimlo'n fwyaf anniogel a defnyddio eu llais i lywio ein gwasanaethau partneriaeth.
- Codi ymwybyddiaeth a sicrhau cysondeb yn y defnydd o ymgyrchoedd diogelwch menywod fel Ask Angela, Ask ANI a'r Ymgyrch Diogel i Ddweud.
- Gweithio gyda phartneriaid arbenigol i nodi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o gamfanteisio troseddol a rhywiol a datblygu ein dulliau sy'n seiliedig ar drawma o gefnogi'r rhai mewn angen.
- Cefnogi'r rhai sy'n cael eu camfanteisio ar gyfer rhyw, drwy nodi eu hanghenion a rhoi'r cymorth angenrheidiol i'w helpu i fyw bywydau iachach a mwy diogel.



6. Ein Blaenoriaethau

## Partneriaeth yn ymarferol

### Cymru Ddiogelach: Prosiect GCCD



Mae Gwasanaeth Cynhwysol Cymru Ddiogelach (GCCD) yn brosiect ar gyfer merched ifanc rhwng 12 ac 16 oed. Mae GCCD yn darparu gwaith un i un a gwaith grŵp sy'n canolbwyntio ar annog dewisiadau cadarnhaol o ran ffordd o fyw.

Mae'r gweithgareddau wedi'u strwythuro o fewn amserlen y tymor ac yn cynnwys bwyta'n iach, lleihau straen, perthnasau iach, camfanteisio'n rhywiol ar blant ac iechyd rhywiol. Mae'r sesiynau hyn yn cael eu hwyluso gan staff Cymru Ddiogelach a mentoriaid gwirfoddol.







**"Dwi'n gwybod ei bod yn gallu bod yn anodd cael fy ngweld i neu i gysylltu â fi ond dwi wir yn gwerthfawrogi'r hyn rydych chi'n ei wneud i fi".**

## Blaenoriaeth 6 Y bregusrwydd a'r risg uwch o drais ymhlith y rhai â ffyrdd o fyw ar y stryd

Mae ffyrdd o fyw ar y stryd yn cyfeirio at bobl agored i niwed sy'n treulio'r holl amser neu swm sylweddol o amser mewn lleoliad stryd. Gall eu hymddygiad gynnwys cardota, 'cysgu ar y stryd', cymryd a delio cyffuriau'n agored, yfed alcohol yn agored, gweithgareddau rhywiol sy'n gysylltiedig â chamfanteisio. Yn aml, mae unigolion o'r carfannau hyn yn cyflwyno anghenion cymhleth, wedi profi cefndiroedd trawmatig ac angen cymorth gan ystod o wasanaethau.

Yn anffodus, gall y ffordd hon o fyw fod yn anniogel ac mae'n cynyddu'r risg o drais a chamfanteisio, yn bennaf oherwydd y bregusrwydd sy'n deillio o ddibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. Mae'n bwysig cydnabod nad yw pob unigolyn sy'n byw ar y stryd yn dreisgar neu'n cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol a byddwch yn ymwybodol nad yw ein dull gweithredu partneriaeth yn cyfrannu at stigma na throseddu'r grŵp hwn yn ein cymuned.

Mae llety â chymorth Caerdydd yn darparu ymateb hanfodol i'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol i gynnal sefyllfa byw a ffordd o fyw sefydlog. Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn allweddol wrth leihau cysgu ar y stryd yn sylweddol, ffactor sy'n cyfrannu'n fawr at wneud person yn agored i niwed o ran trais a chamfanteisio a gwella canlyniadau iechyd i'r rhai sy'n defnyddio sylweddau ledled Caerdydd. Maent hefyd yn cynnig cymorth ychwanegol gydag iechyd meddwl a defnyddio sylweddau os oes angen. Trwy'r proffil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, adroddwyd bod trais yn digwydd mewn lleoliadau llety â chymorth, a gydnabyddir yn bennaf oherwydd y risgiau cysylltiedig a nodwyd.

Bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar y risgiau a'r niweidiau cysylltiedig a brofir gan y grŵp hwn o bobl agored i niwed wrth gydnabod yr effeithiau y mae hyn yn eu cael ar y gymuned ehangach.

Gallai hyn gynnwys gwella'r diogelwch mewn llety â chymorth penodol i ddiogelu'r rhai yn y llety. Byddai'n targedu gwasanaethau allgymorth cefnogol i wella ymgysylltiad â gwasanaethau iechyd. Byddai hefyd yn mynd i'r afael â sbwriel cyffuriau er mwyn gwella teimlad o ddiogelwch a chanfyddiadau'r gymuned.

### Ein Blaenoriaeth:

- Deall yr anghenion cymhleth a'r bregusrwydd a briodolir i bobl sy'n byw mewn llety dros dro neu â chymorth, sydd mewn mwy o berygl o drais.

### Byddwn yn:

- Canolbwyntio ar ddiogelu'r rhai sy'n byw mewn llety â chymorth, gan nodi'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o gamfanteisio troseddol a rhywiol a chynnig cymorth.
- Archwilio cyfleoedd hyfforddi i bartneriaid sy'n gweithio mewn llety â chymorth ar faterion sy'n ymwneud â diogelu cyd-destunol, camfanteisio, ac arferion sy'n seiliedig ar drawma.
- Sefydlu rhaglenni ymgysylltu sy'n gefnogol i anghenion cymhleth ac yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol.





## Partneriaeth yn ymarferol

### Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro (GCACF)



Wedi'i lansio ar 1 Awst 2022, GCACF bellach yw'r prif wasanaeth yn ardal Caerdydd a'r Fro, gan gefnogi pobl yr effeithir arnynt gan ddefnyddio sylweddau. Mae GCACF yn gynghrair rhwng Barod, Recovery Cymru, a Kaleidoscope, gyda'r partneriaid strategol G4S a Pobl.

### Kaleidoscope: Dyfodol




Mae Dyfodol yn cynnig cymorth mewn lleoliadau dalfa ac yn y gymuned i unrhyw un sy'n cael eu cynorthwyo gan wasanaethau cyfiawnder troseddol, fel y gwasanaeth prawf.

Mae'r prosiect yn gwasanaethu ardal fawr, gan gynnwys Bae'r Gorllewin, Caerdydd a'r Fro, Rhondda Cynon Taf a Merthyr. Mae Kaleidoscope yn cyflwyno'r prosiect hwn mewn partneriaeth â G4S, WCADA a GCPhEF.

**"Celais ef [fy OCD], ni siaradais fyth â neb amdano, ac roedd cyffuriau yn cuddio'r gofidiau hynny i mi. Mae'n hawdd mynd ar lethr llithrig, ond bellach, rydw i wedi ail-gydio yn fy mywyd."**

**Cullan, Caerdydd**

# 7. Cydnabyddiaeth

Mae'r Strategaeth Atal Trais hon wedi'i datblygu gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd, gyda chefnogaeth ein partneriaeth ehangach.

Sylfaen y Strategaeth hon yw Cymru Heb Drais 'Fframwaith ar y Cyd ar gyfer Atal Trais Ymhlith Plant a Phobl Ifanc'. Diolch arbennig am yr ymchwil hon i Lara Snowdon, Bryony Parry, Dr Alex Walker ac Emma Barton o Uned Atal Trais Cymru (UAT Cymru). Mae UAT Cymru yn dîm amlasiantaethol sy'n defnyddio dull iechyd cyhoeddus o atal trais yng Nghymru. Cafodd ei chyd-gynhyrchu hefyd gyda Thîm Peer Action Collective Cymru sy'n brosiect ymchwil gweithredu cymdeithasol arloesol dan arweiniad plant a phobl ifanc 16 i 25 oed.

Cafodd tystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r strategaeth hon ei datblygu gan Asesiad Anghenion Strategol Caerdydd a'r Fro Iechyd Cyhoeddus Cymru. Diolch i Penny Cresswell-Jones a Lorna Bennet am gydlynu a datblygu'r darn hwn o ymchwil. Mae'r asesiad yn archwilio dull iechyd cyhoeddus o ymdrin ag achosion sylfaenol trais yng Nghaerdydd ac yn cynnig argymhellion gwerthfawr i ganolbwyntio ein hymdrechion partneriaeth.

Mae proffil o drais yng Nghaerdydd wedi'i gynnal mewn ymateb i ofynion y Ddyletswydd Trais Difrifol, a ysgrifennwyd gan Dîm Diogelwch Cymunedol Cyngor Caerdydd (Eluned Evans, Clare Yeoman, Max Bonar-Law, a Jenny Rogers). Mae'r proffil tystiolaeth hwn yn nodi themâu clir ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol er mwyn cyflawni Caerdydd Heb Drais.

Diolch i Heddlu De Cymru a'r Uned Atal Trais sydd wedi cyflwyno adroddiadau data a dadansoddol cyfrannol amrywiol (Hannah Bryant, Dave Munting, Vicky Lee) a dadansoddiad pellach o fethodoleg datrys problemau blaenoriaeth o'r enw Ymgyrch Sentinel (Jason Herbert). Mae hyn yn defnyddio data'r heddlu a data iechyd cyhoeddus, ynghyd â Mynegai Niwed Troseddau Caergrawnt (MNTC), sy'n system sy'n mesur difrifoldeb troseddau a niwed i ddioddefwyr.

Diolch hefyd i'r aelodau o Grŵp Atal Trais Caerdydd, dan gadeiryddiaeth James Dunn (Meddyg Ymgynghorol Adran Damweiniau ac Achosion Brys) a Dan Jones (Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Atal Trais a Phennaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru). Mae pob un ohonynt wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r strategaeth hon, drwy ymchwil, cyfarfodydd, gweithdai, a dadansoddi a dehongli data.








# 8. Cyfeiriadau

1. SYG, 2021. Cyfrifiad 2021, Lawrlwythiad Swmpddata, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael yn: Cyfrifiad 2021 Swmp - Nomis - Ystadegau Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur Swyddogol (nomisweb.co.uk) [Cyrchwyd 11/09/2023]. Tudalen 4

2. Y Swyddfa Gartref, 2022. Canllawiau Statudol: Dyletswydd Trais Difrifol (hygyrch). Ar gael yn: Dyletswydd Trais Difrifol (hygyrch) - GOV.UK (www.gov.uk) [Cyrchwyd 09/09/2024]. Tudalen 5, 8

3. Partneriaeth Caerdydd. Amdanon ni. Ar gael yn: Amdanom ni - Partneriaeth Caerdydd : Partneriaeth Caerdydd [Cyrchwyd ar 09/09/2024]. Tudalen 6

4. Partneriaeth Caerdydd. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Ar gael yn: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol - Partneriaeth Caerdxydd : Partneriaeth Caerdydd [Cyrchwyd ar 09/09/2024]. Tudalen 6

5. Data Porth IQuanta y Swyddfa Gartref, (1 Ionawr i 31 Rhagfyr 2022) Tudalen 8 a 10

6. Partneriaeth Caerdydd. 'Mae yn ein dwylo ni' Strategaeth Trais yn erbyn Menywod,

7. Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ar gael yn: Strategaeth ddrafft VAWDASV (partneriaethcaerdydd.co.uk) [fel ar 09/09/2024]. Tudalen 8, 32

8. Snowdon, L., Parry, B., Walker, A. a Barton, E., 2023. Fframwaith ar y Cyd ar gyfer Atal Trais ymhlith Plant a Phobl Ifanc Uned Atal Trais Cymru, Caerdydd Tudalennau 9, 12, 19, 22, 24

9. Cresswell-Jones, P a Bennett, L., 2023. Caerdydd a Bro Morgannwg. Asesiad Anghenion Strategol Mehefin 2023. Comisiynwyd gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Tudalen 9, 12, 17

10. Ystadegau Troseddau a Adroddwyd gan Niche Heddlu De Cymru, 2023. Tud 10 a 11

11. Swyddfa Ystadegau Gwladol: Tablau Data Troseddu yn Ardaloedd Heddluoedd Cymru a Lloegr, 2023. Tudalen 10

12. (Sherman, Neyroud a Neyroud, 2016) Sherman, L., Neyroud, PW a Neyroud, E., 2016. 'The Cambridge Crime Harm Index: Measuring total harm from crime based on sentencing guidelines', Policing, 10(3), tud. 171-183. Tudalen 12

13. Llywodraeth Cymru, 2019. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (diweddariad llawn y Mynegai gyda graddfeydd): 2019. Ar gael yn: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (diweddariad llawn y Mynegai gyda graddfeydd): 2019 | LLYW. CYMRU [Cyrchwyd ar 09/09/2024]. Tudalen 12

14. Porth Atal Trais (PAT), 2023. Data ar gyfer presenoldeb mewn adrannau achosion brys oherwydd ymosodiad. Tudalen 13, 14

15. Bryant., H, 2,023. Proffil Problemau Trais Difrifol a Throseddau Cundrefnol Difrifol, URS Caerdydd a'r Fro. 1 Ionawr i 30 Mehefin, 2023. [Heb ei gyhoeddi. At ddibenion cudd-wybodaeth yn unig] Tudalen 14

16. Partneriaeth Caerdydd, 2023. Adroddiad Trosolwg o Ymgynghoriad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. Ar gael yn: https://www.cardiffpartnership.co.uk/wp-content/uploads/2023/02/Consultation-Overview-Report-v0.2-Eng.pdf [Cyrchwyd ar 09/09/2024]. Tudalen 15

17. Sefydliad Arloesi Diogelwch, Troseddu a Chudd-wybodaeth, 2023. Model Caerdydd ar gyfer Atal Trais Ar gael yn: Model Caerdydd ar gyfer Atal Trais - Prifysgol Caerdydd [cyrchwyd 09/09/2024]. Tudalen 17

# 9. Atodiad

**A1: Rhestr o Strategaethau Cefnogol**

Mae'r strategaethau a'r fframweithiau canlynol wedi'u nodi:

- Strategaeth Gorfforaethol Caerdydd: Cryfach, Tecach, Gwyrddach
- Cynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
- Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a'r Fro 2023-26
- Strategaeth CONTEST genedlaethol
- Addewid Caerdydd
- Fframwaith Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE)
- Addysg 2030 Caerdydd
- Strategaeth Gwasanaethau Plant Caerdydd 2022
- Strategaeth Cymorth Cynnar
- Strategaeth Caerdydd Dinasoedd Sy'n Dda i Blant
- Strategaeth Digartrefedd Caerdydd 22-24
- Strategaeth Rhianta Corfforaethol Caerdydd
- Bwrdd Iechyd y Brifysgol – Cymru Iachach – Llunio Cymuned Ein Dyfodol
- Bwrdd Iechyd y Brifysgol – Strategaeth Llunio Ein Lles i'r Dyfodol
- Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru – Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Ymagwedd Gymdeithasol at Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd
- Cynllun Lleihau Troseddu Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru 2022-26
- Llywodraeth Cymru: Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru Gyfan
- Bwrdd Cyfiawnder Iechyd – Ymagwedd Gymdeithasol at Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd 2022-23
- Uned Atal Trais – Fframwaith Cymru Heb Drais
- Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru
- Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a Lleihau Niwed De Cymru

**Adnoddau**

Model Caerdydd ar gyfer Atal Trais – Prifysgol Caerdydd

Lansiwyd ymgyrch troseddau cyllyll 'Ddim Yr Un' i addysgu pobl ifanc am beryglon cario cyllell | Heddlu De Cymru (south-wales.police.uk)

'Cymru Heb Drais' – Fframwaith ar y Cyd ar gyfer Atal Trais Ymhlith Plant a Phobl Ifanc, 2023





Cardiff
Caerdydd

Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
Caerdydd,
d/o Tîm Diogelwch Cymunedol
Ystafell 512, Neuadd y Sir
Caerdydd CF10 4UW
BGCCaerdydd@caerdydd.gov.uk